| Sir Y Fflint yn lansio Canolbwynt newydd ar gyfer prentisiaid | Flintshire launches new Hub for apprentices |
| --- | --- |

| | |
| --- | --- |
| Mae Cyngor Sir Y Fflint yn nodi Wythnos Prentisiaethau Cymru gyda lansiad Canolbwynt Prentisiaethau ar-lein newydd. | Flintshire County Council is marking Apprenticeships Week Wales with the launch of a new online Apprenticeships Hub. |
| Cynhelir rhwng 7 a 13 Chwefror, mae Wythnos Prentisiaethau Cymru yn anelu i godi ymwybyddiaeth am yr ystod o gyfleoedd ar gael a manteision bod yn brentis. | Running from 7 to 13 February, Apprenticeships Week Wales aims to raise awareness of the range of opportunities on offer and the benefits of becoming an apprentice. |
| Mae Canolbwynt Prentisiaethau newydd Sir y Fflint siryfflint.gov.uk/Prentisiaethau yn cynnig ffynhonnell ganolog o wybodaeth i bobl sydd eisiau dysgu yn y gwaith, datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, cyflawni cymwysterau ac ennill arian, y cyfan ar yr un pryd. | Flintshire's new Apprenticeships Hub flintshire.gov.uk/Apprenticeships provides a central source of information for people who are keen to build their knowledge and skills through learning a new job, achieving qualifications and earning money, all at the same time. |
| Mae gan Sir Y Fflint Raglen Brentisiaeth arobryn hir sefydledig a bob blwyddyn mae'n croesawu nifer o Hyfforddai newydd Sir y Fflint ar draws ystod o ddisgyblaethau, fel busnes a gweinyddu, TG, diwydiannau adeiladu, cynnal a chadw cerbydau a mecaneg. | Flintshire has a long established award winning Apprenticeship Programme and each year welcomes a number of new Flintshire Trainees across a wide range of disciplines, such as business and administration, IT, construction trades, vehicle maintenance and mechanics. |
| Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg ac Ieuenctid: | Leader of the Council and Cabinet Member for Education and Youth, Councillor Ian Roberts, said: |
| "Mae ein cynllun prentisiaeth yn cael ei ystyried yn arfer gorau gyda dull sy'n arwain y sector. Gellir gweld hyn yn ein canlyniadau. Mae 95% o'r sawl sy'n dechrau prentisiaeth gyda Sir y Fflint yn derbyn canlyniad cadarnhaol. Mae 75% yn derbyn swyddi gyda'r Cyngor, 15% yn mynd ymlaen i gael gwaith y tu allan i'r Cyngor a 5% yn defnyddio cymwysterau a enillwyd i fynd i'r brifysgol. | "Our apprenticeship scheme is seen as best practice and sector leading in its approach. This can be seen in our results. 95% of those who start an apprenticeship with Flintshire get a positive outcome. 75% get jobs with the Council, 15% go on to employment outside of the Council and 5% use the qualifications they gain to access university. |
| "Mae'n sefyllfa ble mae yna fanteision i bawb. Mae'r Cyngor yn elwa o gyfoeth o syniadau ac egni newydd ac mae prentisiaid yn cael datblygiad gwych a dechrau cadarn i'w gyrfa. Mae rhai sydd wedi dechrau fel prentis bellach yn reolwyr gwasanaeth." | "It's a win win situation. The Council benefits from an enrichment of new ideas and energy and in return apprentices get great development and a firm start to their career. Some who have started as an apprentice are now service mangers." |
| Bydd y Cyngor yn recriwtio ar gyfer derbyn prentisiaid 2022 yn ystod y gwanwyn. Bydd yr hysbyseb allan ganol Mawrth ond mae pobl yn gallu cofrestru eu diddordeb nawr ar Ganolbwynt Prentisiaethau newydd y Cyngor ar-lein. | The Council will be recruiting for its 2022 intake during the spring. The advert will be out mid-March but people can register their interest now on the Council's new online Apprenticeships Hub. |